Newydd Wedd
Angharad Jones

Beth yw harddwch?
Dyna gwestiwn anodd. Mae pawb yn gweld pethau'n wahanol. Mae rhywbeth sy'n hyll i un person yn hardd i un arall.
Ydy sbwriel yn medru bod yn hardd? Nac ydy, meddech chi ..... **OND!**

Cafodd rhai o ddisgyblion Ysgol y Bechgyn, Aberdâr, y dasg o ddangos y gallwch greu rhywbeth hardd o sbwriel.
Buon nhw wrthi'n brysur yn casglu mathau gwahanol o sbwriel ac yna'u rhoi wrth ei gilydd i wneud cerflun i addurno un o waliau'r ysgol.

Y cerflun ar wal yr ysgol

Y bechgyn yn gweithio ar y cerflun

Rhan o'r ffens o gwmpas y pwll. Aeth grwp arall i iard sgrap leol i ddewis darnau diddorol o hen geir, wedyn gwneud ffens ohonynt o gwmpas pwll dwr ar dir yr ysgol.

Ydy sbwriel yn broblem yn eich hysgol chi?
Oes sbwriel lle rydych chi'n byw?
Oes gennych chi syniadau sut i wneud y lle i edrych yn well?

MEDDYLIWCH ..... CASGLWCH ..... GWNEWCH

Artist a gof o Gaerdydd yw Angharad Jones.
Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn arbrofi gyda dulliau newydd o greu ffurfiau organig.